# Cyfle i ffynnu

## Y gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud i bobl ifanc

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

## Crynodeb gweithredol

- Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar sut mae'r sector gwirfoddol a chymunedol (VCS) yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc, a'r gwahaniaeth y mae'r cyfleoedd hyn yn ei wneud. Rydym yn ariannu llawer yn y cyfnod hwn: **14,600 o brosiectau, gwerth dros £1.2 biliwn** dros y pum mlynedd diwethaf. Ac mae **1.4 miliwn o bobl ifanc wedi cymryd rhan** drwy 15 rhaglen yn unig.
- Mae'r adroddiad cyntaf hwn, Cyfle i Ffynnu, yn tynnu sylw at y rôl a chwaraeir gan weithwyr ieuenctid, mentoriaid a gweithwyr allweddol o elusennau a grwpiau cymunedol wrth gefnogi a diogelu lles pobl ifanc, gan eu helpu i fyw bywydau iach a boddhaus, waeth beth fo'u hamgylchiadau. Mae hefyd yn cydnabod eu hymdrechion i wella arfer ehangach a llywio'r ffordd y mae gwasanaethau pobl ifanc yn cael eu cynllunio a'u darparu.

### Atal

- Gall profiadau cynnar gael effaith barhaol. Dyna pam rydym wedi ariannu 796 o brosiectau, gwerth £209 miliwn, sy'n canolbwyntio ar atal: helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel, a sicrhau bod ganddynt fframwaith sefydlog a chefnogol.
- Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o'r gwahaniaeth y gall y mesurau ataliol hyn ei wneud. Dangosodd hap-dreial fod BounceBack, ymyriad grŵp mewn ysgolion ar gyfer pobl 9–11 oed ag anawsterau iechyd meddwl sy'n dod i'r amlwg, wedi cynhyrchu **gostyngiadau ystadegol arwyddocaol mewn symptomau emosiynol** cyfranogwyr: gostyngiad cyffredinol o 8%, gan gyrraedd 23% ar gyfer y rhai a fynychodd 80% neu fwy o'r sesiynau. Mae gennym dystiolaeth ddatblygol debyg o fesurau ataliol yn **arbed arian** drwy helpu i gadw pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd.
- Mae'r VCS yn helpu pobl ifanc, eu rhieni a'r gymuned ehangach i **adnabod ffactorau risg**, a gweithio'n fwy adeiladol gyda phobl ifanc. Mae hyrwyddwyr perthynas iach ifanc Angus Women's Aid wedi hyfforddi bron i 6,000 o gyfoedion ar arwyddion ac effaith camdriniaeth, ac wedi helpu i lywio gwaith Heddlu'r Alban a Chyngor Ymgynghorol Cenedlaethol y Prif Weinidog. Mae Dyfodol Cymunedol yn Walsall wedi addysgu 21,800 o bobl ifanc ac wedi hyfforddi dros 1,000 o weithwyr proffesiynol i nodi arwyddion cynnar o baratoi.
- Mae dileu gwahaniaethu yn allweddol i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bob person ifanc. Mae rhai elusennau'n gwneud hyn ar lefel unigol, gan addysgu pobl ifanc am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dathlu'r canlyniadau a ddaw yn sgil hyn, tra bod eraill yn gweithio gydag awdurdodau a gwasanaethau i wella canlyniadau. Mae Black Thrive Lambeth yn gweithio i wella canlyniadau i aelodau'r gymuned Ddu drwy godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau a nodi atebion i ddiffygion a bylchau mewn gwasanaethau.

## Lles meddyliol

- Mae pobl ifanc yn dweud wrthym mai lles meddyliol yw un o'u prif bryderon ac yn rhywbeth y dylem fod yn ei gefnogi. I ymateb, rydym wedi rhoi **4,231 o grantiau** i helpu pobl ifanc i siarad am eu hiechyd meddwl a'i reoli. HeadStart yw ein buddsoddiad mwyaf yn y maes hwn, gan roi mynediad i gymorth lles i **201,880 o bobl ifanc**, gyda 37,400 yn cael cymorth ychwanegol, fel therapïau siarad. Ac mae'r rhaglen wedi hyfforddi **246,540 o weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr**.
- Mae angen yr arian hwn fwyaf gan bobl ifanc ar adegau risg penodol, fel profedigaeth, a'r rhai sydd wedi profi trawma. Mae WomenCentre yn Swydd Efrog wedi gweithio gyda goroeswyr ifanc o gamfanteisio a cham-drin, gan arwain at welliant o 45% mewn sgoriau sy'n ymwneud â'r gallu i ymdopi â heriau.
- Mae ein deiliaid grant yn archwilio risgiau a sbardunau iechyd meddwl sy'n dod i'r amlwg, megis hapchwarae, ac yn cefnogi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Fel cwnsela cerdded a siarad yn Blackpool, sy'n arwain at ostyngiad mewn emosiynau negyddol i tua thri chwarter y cyfranogwyr.

## Diogel o niwed

- Mae elusennau yno hefyd i ddarparu **cymorth mewn argyfwng**. Maent yn helpu pobl ifanc sy'n profi digartrefedd i ddod o hyd i rywle i fyw (564 o grantiau); cefnogi dioddefwyr trais a cham-drin i adeiladu bywyd newydd (657); cynnig llwybrau allan o droseddu a gangiau (234); a chefnogi pobl ifanc sy'n profi caethiwed (897).
- Mae eu cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc, eu teuluoedd, a'r gymdeithas ehangach. Fel gwasanaeth cyfryngu teuluol arobryn Llamau, sy'n cefnogi dros 500 o deuluoedd Cymru bob blwyddyn. Mae ganddynt gyfradd llwyddiant o 71% o bobl ifanc yn dychwelyd adref, gan **arbed £8 miliwn i bwrs y wlad** ar lety â chymorth.
- Mae ein grantiau yn helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Mae Amy's Place yn un o nifer fach o brosiectau tai adfer yn y wlad sy'n **pontio'r bwlch** rhwng menywod sy'n gadael gwasanaethau trin caethiwed a dod o hyd i lety annibynnol. Nid yn unig y maent yn darparu lle diogel, mae ganddynt gyfradd llwyddiant uchel o ran helpu menywod ifanc i gynnal adferiad ac (ail)gymryd rhan mewn dysgu, gwaith a gwirfoddoli.
- Gan weithio mewn partneriaeth system gyfan gydag awdurdodau yn Glasgow, mae Action for Children wedi sicrhau **gostyngiadau mewn troseddu** ymhlith pobl ifanc 11-18 oed sydd mewn perygl o droseddu cyfundrefnol difrifol, neu sydd eisoes yn gysylltiedig â throseddu cyfundrefnol difrifol. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod pedwar o bump wedi lleihau amlder neu ddifrifoldeb eu troseddu a'u bod wedi cefnogi traean (32%) mewn i gyrchfannau cadarnhaol. **Nid yw un a oedd wedi cyflawni bron i 600 o droseddau wedi aildroseddu ers cymryd rhan.** Ac roedd cyngor dinas Glasgow wedi arbed dros £500,000 mewn costau drwy ddargyfeirio dim ond pedwar person ifanc risg uchel o ofal diogel dros gyfnod o chwe mis.

## Iechyd Corfforol

- Mae elusennau a grwpiau cymunedol yn rhoi **cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan afiechyd**. Rydym wedi dosbarthu £110 miliwn fel y gall y sefydliadau hyn helpu i wneud bywydau cleifion ifanc yn haws, yn fwy cyfforddus a phleserus drwy gymorth ansfeddygol, o wybodaeth a chyngor i ddillad ac offer arbenigol. Maent hefyd yn **ehangu mynediad at gyfleoedd i gadw'n heini ac yn iach** drwy ymarfer corff, deiet a darpariaeth gwyliau ysgol. Fel rhaglen wyliau Fit and Fed yn Wellingborough, sy'n sicrhau nad yw pobl ifanc yn colli allan ar brydau rheolaidd, iach yn ystod y gwyliau, ac y gallant gadw'n heini.